Aelod Newydd i'r Teulu Ysgol - Ci Cybi – A New Member of the School Family

Gan bod y newyddion eisioes wedi dechrau ymledu, ga'i fanteisio ar y cyfle i rannu ychydig o newyddion 'Cyngor Ysgol Cybi' gyda chi ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn. **Yn dilyn ymgyrch gan y Cyngor Ysgol wedi'i arwain gan waith caled Miley Edwards, Madison Marshall a William Owen rydyn ni wedi ymrwymo i gael gafael ar gi i fod yn rhan o deulu Ysgol Cybi.**

Pan yrrwyd y cais ataf fi'n wreiddiol fel fedrwch chi gredu, doeddwn i fel Pennaeth ddim yn awyddus o gwbl ac yn gweld y problemau diddiwedd allasai gyrraedd gyda'r ci! Ond, roedd y Cyngor Ysgol yn benderfynol, yn benderfynol iawn. Aethon nhw ati i …..

- Cyflwyno'r dadleuon o blaid cael ci, yn drylwyr ac eglur
- Adnabod y problemau posibl a chynnig datrysiadau manwl ar eu cyfer
- Dod i wybod mwy am hanesion ysgolion eraill oedd wedi mynd i lawr yr un llwybr.
- Heb ddweud dim wrth aelodau o staff(!), mynd ati i drefnu a chynnal cyfarfod digidol gyda Pennaeth Ysgol Tywyn (sydd wedi bod a ci ysgol ers tro).
- Cyflwyno'r dadleuon i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol
- Heb anghofio'r crysau t a'r gwpan newydd!!

Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chi dros yr wythnosau nesaf, ond ga'i orffen drwy bwysleisio bod defnydd o gwn i gefnogi pob agwedd o les plant mewn ysgolion wedi tyfu'n fwy a mwy pobolgaidd yn y blynyddoedd diwethaf wrth i'r ysgolion hynny brofi llwyddiant. Wrth i ni fwrw ymlaen gyda'r trefniadau byddwn yn meddwl yn ofalus am yr ystyriaethau ymarferol, yn llunio asesiadau risg ac wrth gwrs yn gofyn am ganiatad rhieni i sicrhau eich bod chi a'r plant yn gwbl gyfforddus.

As the news has already started to spread, I would like to share some 'Ysgol Cybi School Council' news with you at the end of the Spring Term. ***Following a School Council campaign led by Miley Edwards, Madison Marshall and William Owen we have now committed to finding a dog to be part of the Ysgol Cybi family.***

When the request was originally sent to me, believe me as a Headteacher I was not keen at all and saw only the endless problems that would surely arise with a dog on our school site! But, the School Council was determined, very determined. They set about to…..

- *Present the arguments for having a dog, thoroughly and clearly*
- *Identified potential problems and offered detailed solutions*
- *Find out more about the stories of other schools that had gone down the same route.*
- *Without informing members of staff(!), set up and held a digital meeting with the Head of Ysgol Tywyn (who already have a school dog).*
- *Present the arguments to the Headteacher and Governing Body*
- *Not forgetting the new t-shirts and mug!!*

We'll be sharing more information with you over the coming weeks, but can I emphasise that the use of dogs to support all aspects of children's welfare in schools has become ever more popular in recent years as schools have proved success with the initiative. As the arrangements are put in place we will be thinking carefully about the practicalities, drawing up risk assessments and of course seeking parental consent to ensure that you and the children are comfortable with developments

Mr Owain L Roberts (Pennaeth Ysgol Cybi